**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 25 HYDREF 2016 YN NHŶ HASTINGS.**

**Yn bresennol:** Mr. Owen Watkin (Cadeirydd); Mr. Ceri Stradling; Mr. David Powell a Mr. Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr. Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr. Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr. Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mr. Daniel Mosley (Swyddog Arolygon) a Mr Farhan Khan (Swyddog Arolygon).

**Amser Dechrau:** 09:30
**Amser Gorffen:** 12:55

**Ymddiheuriadau:** Mrs Julie May (Aelod); Mrs Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes); Mrs Caroline Redmond (Cynorthwyydd Swyddfa).

1. **Datganiadau o Fuddiant**

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

**2. Briff gan y Cadeirydd**

2.1. Croesawodd y Cadeirydd Farhan Khan i'r Comisiwn, fel y Swyddog Arolygon mwyaf newydd.

2.2. Cyhoeddodd y Cadeirydd y bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn cyfarfod â CLILC yn ddiweddarach heddiw i drafod Polisi ac Arfer Arolygon Etholiadol, ac y bydd yn rhoi gwybod i Aelodau maes o law am unrhyw gyfarfod ychwanegol.

2.3. Cyhoeddodd y Cadeirydd fod Ysgrifennydd y Cabinet yn edrych ar drefniadau llywodraethu Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru, ac efallai y gofynnir i'r Comisiwn gynorthwyo nes ymlaen. Caiff aelodau wybodaeth fel y bo'n briodol.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 27 Medi 2016**

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi 2016 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

**4. Materion yn Codi**

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 17 Hydref 2016 gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn gyffredinol gan nodi'r materion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod hwn, a **nodwyd** hefyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol:

- (Mater 1) Arolygon Etholiadol – Amserlen, Polisi ac Arfer a Model Maint Cynghorau – Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn cyfarfod â CLILC i drafod y Polisi ac Arfer a bydd yn dechrau trefnu cyhoeddiad maes o law.

- (Mater 4) Staffio – recriwtio Dau Swyddog Arolygon – Mae un Swyddog Arolygon wedi dechrau gweithio yn y Comisiwn, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i lenwi swydd yr ail Swyddog Arolygon gyda hyn. **Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cymorth Busnes**
- (Mater 5) Staffio – recriwtio Swyddog Cymorth Busnes – mae'r hysbyseb wedi'i llunio a chaiff ei hysbysebu'n fuan. **Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cymorth Busnes**
- (Mater 7) Teithio a Chynhaliaeth - ar ôl trafodaethau gydag amryw o Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, cytunwyd mai ychydig iawn y gallai'r Comisiwn ei wneud i yswirio yn erbyn y risg i eiddo personol staff sydd allan o'r swyddfa ar fusnes y Comisiwn. Caiff hwn ei godi yn y Gofrestr Risgiau Gweithredol fel risg bosibl yn y cyfarfod rheolwyr nesaf. **Prif Weithredwr.**
- (Mater 9) Gwasanaeth Cyfreithiol – mae contract presennol y Comisiwn gydag Adran Gyfreithiol y Llywodraeth yn dod i ben ymhen ychydig fisoedd; fel dewis arall, gofynnir i'r Comisiwn ystyried defnyddio fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gyfer gwaith cyfreithiol yn y dyfodol ar sail ad hoc, yn hytrach na chontract tendr. **Prif Weithredwr.**
- (Mater 11) Bil Llywodraeth Leol Cymru – cytunodd y Comisiwn nad oedd y Bil drafft presennol yn effeithio arno'n uniongyrchol, ac ni fyddai angen ei fonitro mwyach, ond byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn codi'r mater hwn eto pe bai deddfwriaeth bellach yn cael ei chreu gan Lywodraeth Cymru.
- (Mater 12) Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus – Oherwydd y newidiadau yng nghynlluniau gwaith y Comisiwn, nid oes angen uniongyrchol am gyfarfod pellach gyda Chomisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus. Cytunodd y Comisiwn y gellir dileu'r mater hwn ar ôl gwneud cyswllt â Chomisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus **Prif Weithredwr**
- (Mater 13) Gwobrau Iechyd y Gweithle Bach – bwriada'r Comisiwn wneud cais am y wobr, yn amodol ar gyfyngiadau amser, a bydd yn rhoi gwybodaeth gyson i'r Comisiwn ynglŷn â'i gynnydd. **Gweithredu: Dirprwy Brif Weithredwr a'r Rheolwr Cymorth Busnes.**

5. **Cynllun Gweithredol Diwygiedig**

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 10 Hydref 2016 gan y Prif Weithredwr.

5.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad a **Chytunodd** y Cynllun Gweithredol Diwygiedig, yn amodol ar rai mân ddiwygiadau. Bydd hwn yn cael ei ddarparu i Is-adran Noddi'r Comisiwn yn awr.

**6. Rheoli Risg – Y Gofrestr Register**

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 13 Hydref 2016 gan y Rheolwr Cyllid. Gofynnodd y Comisiwn am eglurhad ynghylch rôl bosibl y Comisiwn yng ngwaith y Cyngor Tref a Chymuned dywededig a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet, cyn newid CR10. **Cytunwyd** y byddai papur ar Arolygon Cymunedol yn cael ei lunio ar gyfer y cyfarfod nesaf.
**Gweithredu: Prif Weithredwr**

6.2. Cytunodd y Comisiwn y gofrestr risgiau wedi'i diweddaru a'r adroddiad rheoli risg yn amodol ar y diwygiadau canlynol i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol:

- CR13 – ychwanegu cam lliniaru, bod y Comisiwn wedi cysylltu â nifer o Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r risg hon.
  **Gweithredu: Rheolwr Cyllid**

6.3. **Cytunwyd** bod y Gofrestr Risgiau Gweithredol yn cael ei diweddaru i adlewyrchu'r risg y gallai'r Comisiwn ei hwynebu yn absenoldeb yswiriant teithio o ran colled bersonol wrth deithio ar fusnes y Comisiwn (mewn perthynas â Mater 7 yng nghofnod 4.2 uchod). **Gweithredu: Rheolwr Cyllid**

## 7. Adroddiad ar y Gyllideb

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 11 Hydref 2016 gan y Rheolwr Cyllid.

7.2. Nodwyd y sefyllfa bresennol gan y Comisiwn a'r amcangyfrif o danwariant am y flwyddyn ar gyfer CFfDLC a'r Comisiwn Ffiniau i Gymru. Cytunwyd y byddai ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i danwariant y CFfDLC yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Rhagfyr, gan ystyried bod camau cynnar y rhaglen arolygon etholiadol yn digwydd yn y flwyddyn ariannol hon, gyda'r bwriad o ildio cyllid yn ôl i Lywodraeth Cymru.

7.3. **Nodwyd** a **Chytunwyd** yr adroddiad.

## 8. Digwyddiad Diogelwch Data

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 15 Hydref 2016 gan y Rheolwr Cyllid.

8.2. Ystyriwyd y digwyddiad diogelwch gan y Comisiwn a'r camau sydd ar waith yn y Comisiwn i atal digwyddiadau fel hyn rhag digwydd.

8.3. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn a **Chytunodd** y dylai staff a'r Ysgrifenyddiaeth barhau i ddilyn polisi presennol y Comisiwn ar drin a thrafod dogfennau.

## 9. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 18 Hydref 2016 gan y Prif Weithredwr ynglŷn â chynnydd presennol adroddiadau.

9.2. Trafododd y Comisiwn drefniadau cyfarfodydd ar gyfer yr Arolygon etholiadol o Geredigion, Gwynedd a Phowys, a chadarnhaodd ddyddiadau pan fydd ar gael.

9.3. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiynwyr.
**Gweithredu: Dirprwy Brif Weithredwr**

## 10. Strategaeth TG Ddrafft ac Opsiynau TG

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 17 Hydref 2016 gan y Dirprwy Brif Weithredwr ynglŷn â'r Strategaeth ac Opsiynau TG newydd ar gyfer y Comisiwn.

10.2. **Cytunodd** y Comisiwn y papur Strategaeth ac Opsiynau TG yn amodol ar gywiro ychydig o fân wallau gramadegol.

10.3. **Cytunodd** y Comisiwn mai Opsiwn 2, sef partneru gyda Chymwysterau Cymru, yw'r cyfeiriad a ffefrir i'r Comisiwn ei gymryd wrth ddatblygu Strategaeth TG.

10.4. Esboniodd y Dirprwy Brif Weithredwr y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn cysylltu â Phrif Weithredwr Cymwysterau Cymru i'w hysbysu o benderfyniad y Comisiwn a chynnal astudiaeth ddichonoldeb. Bydd papur pellach yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn i amlygu canlyniad hyn.

10.5. **Cytunodd** y Comisiwn y byddai'r opsiwn i bartneru gyda Chyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei ymchwilio ymhellach pe ystyriwyd bod y bartneriaeth gyda Chymwysterau Cymru yn anymarferol.
**Gweithredu: Dirprwy Brif Weithredwr**

## 11. Calendr Digwyddiadau

11.1. **Nodwyd** y Calendr Digwyddiadau.

## 12. Unrhyw Fusnes Perthnasol Arall

12.1. Hysbysodd y Prif Weithredwr y Comisiwn ynglŷn ag ymateb yn ôl gan ymgynghoriad Swyddfa Archwilio Cymru ar Gyfraddau Ffioedd a Graddfeydd Ffioedd. Esboniodd y Prif Weithredwr y diolchwyd i'r Comisiwn am ei gyfraniad wrth gyflwyno barn, ac y byddai Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi ei gynllun terfynol ar ôl craffu. **Nodwyd** hyn gan y Comisiwn.

12.2. Caniatawyd i'r Cadeirydd, neu ddirprwy, fynychu Cynhadledd CLILC ar 3 Tachwedd.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Dydd Mawrth 22 Tachwedd 2016**